
Ymagwedd at gostau dros ben o dan y rhwymedigaeth gwasanaeth band eang cyffredinol

Diwygiad arfaethedig i'r Amodau Gwasanaeth
Cyffredinol

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 16 Gorffennaf 2021

Dyddiad Cau ar gyfer Ymatebion: 10 Medi 2021

1. Trosolwg

- 1.1 Yn 2018, cyflwynodd Llywodraeth y DU ddeddfwriaeth ar gyfer 'rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol' (USO) band eang, i roi'r hawl i bobl ofyn am gysylltiad band eang digonol i'w cartrefi a'u busnesau. O dan y ddeddfwriaeth, os nad yw cost darparu cysylltiad penodol yn fwy na £3,400 heb gynnwys TAW, nid oes rhaid i'r cwsmer dalu i'r cysylltiad gael ei adeiladu. Os yw'r costau'n fwy na hyn, gall y cwsmer dalu'r gwahaniaeth.
- 1.2 Yn 2019, gwnaethom ddynodi BT fel Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol a phennu'r amodau sy'n berthnasol iddo. I gyfrifo costau cysylltiad, mae'n rhaid i BT rannu costau'r rhwydwaith a all wasanaethu anheddau lluosog. Mae'r costau wedi'u dosrannu yn seiliedig ar dybiaeth y bydd o leiaf 70% o anheddau cymwys mewn ardal yn gofyn am gysylltiad. Os, ar y sail hon, bydd y gost yn fwy na £3,400 (heb gynnwys TAW), mae'n rhaid i BT ddarganfod a yw'r cwsmer yn barod i dalu'r costau (gan gynnwys TAW). Ar gais, mae'n rhaid i BT ddarparu dyfynbris llawn ar gyfer y costau dros ben yn brydlon i gwsmeriaid.
- 1.3 Ym mis Hydref 2020, gwnaethom gychwyn ymchwiliad oherwydd pryderon efallai nad oedd BT yn cydymffurfio â'n rheolau mewn perthynas â'i ymagwedd at gyfrifo costau dros ben. Roedd ymagwedd BT yn golygu nad oedd yn rhannu costau seilwaith a rennir yn y ffordd roeddem yn ei disgwyl, a olygodd y gofynnwyd i rai cwsmeriaid dalu costau dros ben sy'n faterol uwch. Gwnaethom nodi risg sylweddol o niwed i gwsmeriaid sy'n gysylltiedig ag ymagwedd BT, lle nad oedd costau dros ben cysylltiad yn sylweddol uwch na £3,400 (ac eithrio TAW).
- 1.4 O ganlyniad i'n hymchwiliad, mae BT yn awr wedi cytuno i ddefnyddio ein hymagwedd ddisgwyliedig at gyfrifo dyfynbrisiau costau dros ben, lle nad yw'r costau'n sylweddol uwch na £3,400. Mae BT hefyd wedi cytuno i ad-dalu cwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt ac i ailgyhoeddi dyfynbrisiau y mae wedi'u darparu'n flaenorol. I raddau helaeth rydym yn ystyried y dylai hyn ymdrin â'r pryderon am niwed i ddefnyddwyr a achosodd i ni agor yr ymchwiliad hwn. Byddwn yn monitro gweithredoedd BT yn agos i sicrhau yr ymdrinnir â'n pryderon.
- 1.5 Yn ystod yr ymchwiliad darparodd BT dystiolaeth i ddangos, pan fydd cost adeiladu cysylltiad yn uchel iawn a bod costau dros ben yn sylweddol uwch na £3,400, bod risg o effaith anghymesur ar gost cyllido'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol. Gallai hyn godi oherwydd, er efallai y byddai cwsmer unigol yn barod i dalu eu cyfran o'r costau dros ben uchel hyn, ei fod yn llai tebygol y bydd rhai eraill yn eu talu.
- 1.6 Ein disgwyliad presennol yw, unwaith y bydd un cwsmer yn cytuno i dalu eu costau dros ben, bod yn rhaid i BT adeiladu'r holl seilwaith gofynnol i gysylltu'r safle hwnnw. Efallai y bydd hyn yn arwain at ddiffyg sylweddol mewn adennill costau pan fydd ychydig iawn neu ddim cwsmeriaid eraill a fydd yn talu costau dros ben ar y lefel hon. Rydym wedi archwilio hyn yn drylwyr ac yn ystyried y byddai'n briodol, pan fydd costau dros ben yn uchel iawn, bod modd i BT adennill yr holl gostau dros ben cyn dechrau adeiladu er mwyn lliniaru'r risg bosib hon.

- 1.7 Er y bydd nifer o gwsmeriaid yn elwa o dderbyn dyfynbrisiau is yn y dyfodol, bydd safleoedd hefyd lle bydd y costau darpariaeth yn parhau i fod yn uchel iawn. Mae'r cwsmeriaid hyn yn annhebygol o elwa o'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol heb ystyried yr ymagwedd a gymerir at gostau a rennir, ac ni fydd y newid yn ymagwedd BT yn ymdrin â'r achosion hyn. Byddwn yn parhau i gydweithio â'r diwydiant a Llywodraeth y DU i ymchwilio i ddatrysiadau technoleg a chyllid amgen er mwyn i safleoedd sy'n wynebu costau dros ben uchel iawn dderbyn cysylltiad band eang digonol.

Beth rydym yn ei gynnig

- Pan fydd costau dros ben yn uchel iawn, gall BT adennill y cyfanswm costau dros ben cyn cychwyn ar y gwaith adeiladu. Pan fydd un cwsmer yn gwneud cais, a bod y costau dros ben yn fwy na £5,000 (heb gynnwys TAW) fesul safle cymwys yn seiliedig ar y dybiaeth a ragamcanir o 70% o gymeriant yn yr ardal, dylai BT hysbysu cwsmeriaid am y cyfanswm costau dros ben a chael cydsyniad i dalu'r rhain cyn dechrau adeiladu. Gall un neu fwy o gwsmeriaid dalu holl gostau dros ben y gwaith adeiladu, gan gynnwys seilwaith a rennir. Rydym yn disgwyl y bydd ychydig iawn o gwsmeriaid yn barod i dalu mwy na £5,000 (heb gynnwys TAW) i dderbyn cysylltiad band eang wedi'i uwchraddio o dan y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, felly dylai'r newid hwn gael effaith gyfyngedig iawn ar gwsmeriaid, ac ar yr un pryd yn gostwng unrhyw risgiau o ran adennill costau.
- **Nid oes unrhyw newidiadau ar gyfer safleoedd lle mae costau adeiladu dros ben yn £5,000 (heb gynnwys TAW) neu'n is.** Pan fydd costau adeiladu dros ben yn £5,000 (heb gynnwys TAW) neu'n is, yn seiliedig ar ragamcaniad o 70% o gymeriant, dylai dyfynbrisiau cwsmeriaid fod yn seiliedig ar y cymeriant tybiedig hwn. Yna, mae'n rhaid i BT ddarparu unrhyw gysylltiad lle mae cwsmer yn cytuno i dalu eu dyfynbris. O ganlyniad i'n hymchwiliad, mae BT wedi cytuno i gymhwyso'r ymagwedd hon.

- 1.8 Nid ydym yn cynnig unrhyw newid arall i'r rheolau presennol ar sut y mae'n rhaid i BT asesu costau cysylltiadau Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol. Nid ydym yn bwriadu ychwaith i wneud yr un newid ar gyfer KCOM, o ystyried argaeledd gwasanaethau band eang digonol yn ardal Hull. Nodwn, hyd yma, nad yw KCOM wedi derbyn unrhyw geisiadau gan gwsmeriaid sy'n gymwys am y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol.
- 1.9 Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 10 Medi 2021, ac rydym yn bwriadu cyhoeddi ein penderfyniad erbyn diwedd 2021.
- 1.10 Mae adran drosolwg y ddogfen hon yn grynodedd lefel uchel wedi'i symleiddio'n unig. Disgrifir y cynigion yr ydym yn ymgynghori arnynt a'n sail resymegol drostynt yn y ddogfen lawn.